

Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

## RHYBUDD STATUDOL

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ynys Môn, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig peidio â chefnogi Ysgol Talwrn, Talwrn, Ynys Môn LL77 7TG sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ac i gynyddu capasiti Ysgol y Graig sydd yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg ac sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle ger yr Ysgol y Graig bresennol Llangefni, LL77 7LP ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ([www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk))

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2023. Bydd yr Ysgol y Graig sydd wedi ei ehangu yn ysgol gymunedol a Cyngor Sir Ynys Môn (yr awdurdod lleol) fydd yr awdurdod derbyn.

Nifer y disgyblion i'w derbyn ym mhob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion fydd 68. Bydd y meithrin yn darparu lle i 68 o blant ar sail rhan amser. Nid oes bwriad newid y math o ddarpariaeth Addysg Anghenion Arbennig (AAA). Ym mis Medi 2020, roedd 322 disgybl yn Ysgol y Graig. Cynigir bydd capasiti'r ysgol gynradd ehangedig yn cynyddu o 330 i 480.

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn y flwyddyn cyn i'r ysgol ehangedig agor yn trosglwyddo i'r ysgol cyfrwng Gymraeg fydd wedi ei ehangu, yn amodol ar ddewis y rhieni. Bwriedir trefnu cludiant i'r ysgol gynradd fydd wedi ei ehangu o ddalgylch bresennol Ysgol Talwrn.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 10:00 ar 15 Chwefror 2021. Rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig neu mewn e-bost a dylid anfon gwrthwynebiadau at y Rheolwr Rhaglen, Adran Trawsnewid, Pencadlys y Cyngor, Llangefni LL77 7TW neu at [ysgolionmon@ynysmon.gov.uk](mailto:ysgolionmon@ynysmon.gov.uk).

Arwyddwyd

*Rhys Howard Hughes*

**RHYS HOWARD HUGHES**  
**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**  
**ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

Dyddiad – 18 Ionawr 2021

---

## NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad, yn hytrach, ymgais ydyw i gynnis eglurhad)

Rhybudd Statudol yw hwn sy'n dweud y bydd Ysgol Talwrn yn cau a'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol y Graig, fydd yn cael ei ehangu a bydd Ysgol y Graig yn parhau i fod yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg erbyn 1 Medi 2023.

Mae'r polisi cludiant ysgol gyfredol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n cwrrd â phob un o'r meini prawf canlynol:

- maent o oedran ysgol orfodol;
- maent yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol a bennir iddynt gan yr Awdurdod Lleol;
- mae'r daith o'r cartref i'r ysgol yn fwy na 2 filltir.